Royal College of Physicians | Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)

Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)
Tŷ Regus, Falcon Drive
Caerdydd CF10 4RU

☎ +44 (0)29 2050 4540
www.rcplondon.ac.uk/wales

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd CF99 1NA

cc Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

08 Rhagfyr 2014

Annwyl Alun Ffred Jones AC,

Ym mis Tachwedd 2014, sefydlodd Fforwm Iechyd y DU, Coleg Brenhinol y Meddygon yng Nghymru (CBM) a Chymdeithas Frenhinol dros Iechyd y Cyhoedd (CFIC) bartneriaeth gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i gynnal cyfarfod bwrdd crwn i ddatblygu polisïau gan edrych ar nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig Bil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a'i effaith ar iechyd cyhoeddus.

Mae'r grŵp yn croesawu adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i dderbyn ei argymhellion, yn arbennig felly, yr angen i ddarparu datganiad o fwriad cryfach a chliriach a synnwyr cyfeiriad ar gyfer cyrff cyhoeddus.

Fodd bynnag, byddem yn croesawu ymglymiad pwyllgorau eraill yn ogystal wrth graffu ar y Bil hwn. Yn fwy penodol, byddem yn awgrymu y dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gael ei wahodd i graffu ar effaith bosibl y Bil hwn ar iechyd pobl Cymru. Credwn yn gryf iawn bod gan y Bil pellgyrhaeddol hwn gyfle clir i wneud gwir wahaniaeth i ganlyniadau iechyd, a chredwn y byddai'n ddefnyddiol eithriadol i wahodd persbectif pwyllgor arall ar y pwnc hwn.

Ar ran Fforwm Iechyd y DU, CBM yng Nghymru, a CFIC, os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'm cydweithwraig Lowri Jackson, uwch gynghorydd CBM ar bolisi a materion cyhoeddus ar gyfer Cymru, yn Lowri.Jackson@rcplondon.ac.uk neu ar 029 2050 4540 os gwelwch yn dda.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych.

Gyda dymuniadau gorau,

**Dr Alan Rees**
Is-lywydd yr RCP dros Gymru